mencap

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae’r adran yma’n egluro sut i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (mae hyn yn golygu bod rhywun yn cael pleidleisio ar ran rhywun arall)

Pleidleisio drwy ddirprwy

Bydd yr adran yma'n egluro sut i bleidleisio drwy ddirprwy.

Bydd yn egluro:

1. Beth sydd angen i chi ei wneud cyn etholiad
2. Sut i gael dirprwy parhaol
3. Sut i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad



Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun arall i bleidleisio yn eich lle chi. Mae angen i chi lenwi ffurflen i ddewis pwy fydd yn cael pleidleisio i chi.

Mae angen i'r person sy'n ddirprwy i chi wneud cais drwy'r post er mwyn cael pleidleisio yn eich lle chi.

Bydd angen iddyn nhw gysylltu â thîm gwasanaethau etholiadol eich cyngor lleol i gael mwy o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais bellach.

Os ydych chi am wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, gallwch gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol i gael ffurflen bapur neu lawrlwytho ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy o:
https://www.gov.uk/government/collections/proxy-voting-application-forms

Llenwch y ffurflen ac yna ei hanfon hi yn y post.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy ddirprwy

Gallwch wneud cais ar wefan y llywodraeth er mwyn cael pleidlais drwy ddirprwy: **https://www.gov.uk/government/collections/proxy-voting-application-forms**

Dim ond ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, isetholiadau a deisebau adalw ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru y gallwch chi wneud cais ar-lein.

Beth i'w wneud cyn yr etholiad

Dylech ffonio eich tîm etholiadau lleol i ddweud eich bod am bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd bod gennych chi anabledd.

Bydd ffurflen 'Gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd' yn cael ei hanfon atoch chi. Bydd y ffurflen yma'n debyg iawn i'r ffurflen cofrestru i bleidleisio.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy i'w weld yma: **www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau/ffyrdd-i-bleidleisio/gwneud-cais-i-bleidleisio-drwy-ddirprwy**

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy ddirprwy

Pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy, bydd angen i chi roi:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Manylion y person rydych chi wedi dewis i fod yn ddirprwy i bleidleisio yn eich lle chi. Mae'n rhaid eu bod wedi cofrestru i bleidleisio ac yn gallu pleidleisio yn yr etholiad yma
- Am ba mor hir rydych chi am gael pleidlais drwy ddirprwy



Os ewch chi ar-lein, gallwch ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy nes y byddwch yn newid eich meddwl. Ystyr hyn yw y byddwch chi'n pleidleisio drwy ddirprwy nes y byddwch yn dweud nad ydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy dim mwy.

Gallwch ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod penodol. Er enghraifft, gallech chi ddweud mai dim ond rhwng 2022 a 2026 rydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy.

Gallwch bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol. Bydd angen i chi nodi dyddiad yr etholiad.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy ddirprwy

Pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad

Os hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad yn y dyfodol, bydd angen i chi ofyn am ffurflen gais dirprwy parhaol gan eich tîm etholiadau lleol.

Efallai mai dim ond drwy ddirprwy y byddwch chi'n cael pleidleisio yn y dyfodol, yn dibynnu ar eich rheswm. I ddysgu mwy, cysylltwch â'ch gwasanaeth etholiadol lleol yma: www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/gwybodaeth-etholiad

Ar y ffurflen, byddan nhw'n gofyn i chi pam eich bod chi am gael pleidlais drwy ddirprwy.

Gallwch chi bleidleisio drwy ddirprwy am lawer o resymau, gan gynnwys:

- Os ydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall
- Os ydych chi'n cael cyfradd uwch elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Os oes angen i chi weithio oddi cartref

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy ddirprwy

- Gallwch hefyd esbonio pam rydych chi'n meddwl y dylech chi gael pleidlais drwy ddirprwy.

Byddwch hefyd angen rhywun i gefnogi eich esboniad. Gall y bobl yma gefnogi eich cais:

- meddyg, deintydd, fferyllydd neu nyrs
- gweithiwr cymdeithasol
- rheolwr cartref gofal

Bydd mwy o ddewisiadau ar gael ar y ffurflen. Bydd eich tîm etholiadau lleol hefyd yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Angen help? Gallwch ddysgu mwy am bleidleisio ar wefan Mencap: **www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting**

Os oes gennych chi gwestiwn gallwch ffonio llinell gymorth etholiad Mencap: **0207 696 6009.**

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Y
Comisiwn
Etholiadol

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**